

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Bil Protocol Gogledd Iwerddon

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2(i). Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Ar 27 Mehefin ysgrifennodd Gweinidog yr Economi at y Llywydd gan fynegi pryderon ynghylch y Bil a chan nodi, o ganlyniad i'r ffaith nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu'n ystyrllon ynghylch y Bil cyn ei gyflwyno, ac o ystyried pa mor gymhleth y mae'r materion a godir ynddo, na fyddai'n bosibl ymateb o fewn y cyfnod arferol o bythefnos a bennir yn RhS 29.
3. Cafodd Bil Protocol Gogledd Iwerddon (“y Bil”)¹ ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin ar 13 Mehefin a chwblhawyd y cyfnod pwyllgor ar 20 Gorffennaf. Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r Bil, a chynhaliwyd y trydydd darlleniad ar 20 Gorffennaf. Cynhaliwyd darlleniad cyntaf y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Gorffennaf. Trefnwyd yr ail ddarlleniad ar gyfer 11 Hydref.

Amcan(ion) Polisi

4. Mae telerau ymadawiad y DU â'r UE wedi eu nodi yng Nghytundeb Ymadael y DU â'r UE (“y Cytundeb Ymadael”), ac mae'r Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon (“y Protocol”) yn rhan o'r cytundeb hwnnw. Mae'r Protocol yn pennu trefniadau unigryw ar gyfer Gogledd Iwerddon, gyda'r bwriad o ddiogelu Cytundeb (Dydd Gwener y Groglith) Belfast, er mwyn sicrhau na fydd ffin galed ar ynys Iwerddon, i alluogi busnesau yng Ngogledd Iwerddon i barhau i gael mynediad dirwysr at ei marchnadoedd mwyaf pwysig ac i roi ar waith y mesurau diogelu sydd eu hangen ar gyfer Marchnad Sengl yr UE.
5. Fodd bynnag, ers 2020 mae Llywodraeth y DU wedi bod yn mynnu bod y Protocol yn creu rhwystrau annerbyniol i fasnachu o fewn marchnad fewnol y DU, ac mae wedi bod yn ceisio newidiadau². Nid oedd yr UE yn cytuno â safbwynt Llywodraeth y DU ac, ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd ei chynigion ei hun mewn ymateb iddi³, i leihau lefel y gwiriadau a'r rheolaethau, yn ddarostyngedig i nifer o amodau a mesurau diogelu. Dechreuodd y DU a'r UE drafodaethau ar newidiadau i'r Protocol yn y Cyd-bwyllgor – sef y corff sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r Protocol – ac mewn manau eraill, ond nid yw'r ddwy ochr wedi llwyddo i gytuno.
6. Yr amcanion polisi a nodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw, yn ei barn hi, ddatrys problemau sy'n deillio o'r Protocol sy'n cynnwys, yng ngeiriau Llywodraeth y DU, “*trade disruption and diversion, significant costs and*

¹ Bil Protocol Gogledd Iwerddon <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0012/220012.pdf>

² Papur Gorchymyn Llywodraeth y DU [The Northern Ireland Protocol - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/98448/NI-Protocol-2020-09-23.pdf)

³ Y Comisiwn Ewropeaidd, Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon - Pecyn yr UE mis Hydref 2021 [Protocol on Ireland and Northern Ireland | European Commission \(europa.eu\)](https://ec.europa.eu/eu-foreign-affairs/sites/default/files/2021/10/Protocol_on_Ireland_and_Northern_Ireland_-_European_Commission_europa.eu)

*bureaucracy for traders and areas where people in Northern Ireland have not been able to benefit fully from the same advantages as those in the rest of the United Kingdom*⁴.

7. Yn y Nodiadau Esboniadol⁵ i'r Bil mae Llywodraeth y DU yn nodi, "*The purpose of the Bill is to provide Ministers with the power to make changes to the operation of the Northern Ireland Protocol in domestic law which protect the Belfast (Good Friday) Agreement and to safeguard peace and stability in Northern Ireland.*"

Crynodeb o'r Bil

8. Noddwr y Bil yw'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.
9. Mae erthygl 4 o'r Cytundeb Ymadael yn darparu bod y Cytundeb Ymadael a'r darpariaethau yng nghyfraith yr UE y mae'n eu gwneud yn gymwys i gael yr un effeithiau cyfreithiol ("*the same legal effects*") yn y DU ag y maent yn eu creu yn yr UE a'i Haelod-wladwriaethau, gan gynnwys effaith uniongyrchol a goruchafiaeth. Ar hyn o bryd, mae adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn rhoi effaith i hyn drwy ddarparu bod hawliau, atebolrwyddau, rhwymedigaethau, cyfyngiadau, rhwymedïau a gweithdrefnau sy'n codi drwy neu o dan y Cytundeb Ymadael i gael eu cydnabod/i fod ar gael ac i gael eu gorfodi mewn cyfraith ddomestig; a bod pob deddfiad i gael ei ddarllen ac i gael effaith yn ddarostyngedig i hyn. Mae adran 7C yn cyfarwyddo llysoedd i ddechongli cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu (h.y. y Cytundeb Ymadael, y Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir) yn unol â'r Cytundeb Ymadael.
10. Mae'r Bil yn gwneud rhannau penodol o'r Protocol yn 'ddarpariaeth eithriedig' ('*excluded provision*'). Pan fo darpariaeth yn eithriedig, mae'r Bil yn darparu nad yw adran 7A na 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (fel y'i nodir uchod) yn gymwys iddi bellach, sy'n golygu na fydd y ddarpariaeth yn gymwys mewn cyfraith ddomestig.
11. Mae'r rhannau o'r Protocol a bennir gan y Bil yn 'ddarpariaeth eithriedig' yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â symud nwyddau (gan gynnwys tollau) rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon (cymal 4), a rheoleiddio nwyddau yng Ngogledd Iwerddon i'r graddau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod nwyddau yng Ngogledd Iwerddon yn bodloni rheolau'r DU neu reolau'r UE (cymalau 7 ac 8) a rheolau rheoli cymorthdaliadau. Mae'r Bil hefyd yn trin fel 'darpariaeth eithriedig' unrhyw rannau o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael sy'n rhoi awdurdodaeth ar Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â'r Protocol, neu ddarpariaethau cysylltiedig yn y Cytundeb Ymadael.

⁴ Protocol Gogledd Iwerddon: Ateb y DU [Northern Ireland Protocol: the UK's solution - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

⁵ Nodiadau Esboniadol Bil Protocol Gogledd Iwerddon: <https://bills.parliament.uk/publications/47565/documents/2189>

12. Pan fo darpariaethau yn y Bil yn creu 'darpariaeth eithriedig', maent yn dod â phŵer a roddir i Weinidog y Goron wneud 'darpariaeth newydd' ('*new provision*') mewn cyfraith ddomestig.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

13. Mae'r Bil yn Fil perthnasol o fewn RhS 29 am ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru ("darpariaeth berthnasol" at ddibenion RhS 29).

14. Yn gyntaf, i'r graddau y mae'r Bil yn newid yr effaith y mae adrannau 7A a 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn ei chael ar hyn o bryd ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'r Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Y rheswm am hyn yw er bod Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn ddeddfiad gwarchoddedig o dan baragraff 5 o Ran 2 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac y bydd yn parhau i fod felly, effaith y Bil fydd na fydd rhaid darllen deddfwriaeth Cymru mwyach er mwyn rhoi effaith uniongyrchol a goruchafiaeth i ddarpariaethau yn y Protocol sy'n cael eu heithrio gan y Bil ac felly, i'r graddau hyn, mae cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn cael ei haddasu.

15. Yn ail, mae gan Weinidogion Cymru nifer o swyddogaethau o ran gweithredu'r Protocol mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, gan gynnwys y swyddogaethau hynny a grëwyd gan adran 22 o Ddeddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) 2018, a fewnosododd Ran 1C yn Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae ceisio addasu'r ffordd y caiff swyddogaethau o'r fath, mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, eu harfer drwy eithrio darpariaethau penodol yn y Protocol o adran 7A a 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn gyfystyr â gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, sydd ynddo ei hun, felly, yn addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru hefyd.

16. Yn olaf, mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion y Goron sy'n arferadwy mewn meysydd datganoledig, ac sy'n galluogi Gweinidogion y Goron ymhellach i ddirprwyo rhai o'r swyddogaethau hynny neu bob un ohonynt i Weinidogion Cymru mewn rhai achosion. Gallai'r Senedd ddeddfu i ddirprwyo'r pwerau hyn ei hun mewn meysydd datganoledig, ac felly mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau hynny.

17. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Bil cyfan hefyd yn rhoi sylw i'r maes nas cedwir yn ôl o ran gweithredu cytundebau rhyngwladol a/neu ddatblygu economaidd. Am y rheswm hwn, gan ystyried adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n darparu "*...it is recognised that the Parliament of the United Kingdom will not normally legislate with regard to devolved matters without the consent of the Senedd*", mae Llywodraeth Cymru

yn ystyried ei bod yn briodol i geisio cydsyniad deddfwriaethol y Senedd hefyd ar gyfer pob un o'r darpariaethau sy'n weddill yn y Bil (ac eithrio cymal 1, sy'n ddarpariaeth nad yw'n weithredol yn y Bil).

18. Mae'r cymalau unigol fel y maent yn berthnasol i gymhwysedd datganoledig wedi eu nodi isod:

O dan RhS 29.1(i) ar gyfer cymalau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- Cymal 5 (Symud nwyddau: cyfraith newydd ynghylch materion ac eithrio tollau)
- Cymal 9 (Rheoleiddio nwyddau: cyfraith newydd)
- Cymal 10 (Ystyr "rheoleiddio nwyddau")
- Cymal 16 (Darpariaeth eithriedig ychwanegol: cyfraith newydd)
- Cymal 17 (Treth ar werth, tollau cartref a threthi eraill: cyfraith newydd)
- Cymal 19 (Cytundebau newydd sy'n diwygio neu'n disodli Protocol Gogledd Iwerddon)
- Cymal 21 (Gwariant paratoadol)
- Cymal 22 (Rheoliadau)
- Cymal 23 (Gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon: darpariaethau cyffredinol)
- Cymal 25 (Dehongli)
- Cymal 26 (Rhychwant, cychwyn ac enw byr)

O dan RhS 29.1(ii) ar gyfer cymalau sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- Cymal 2 (Cyfyngu ar weithredu Protocol Gogledd Iwerddon yn gyffredinol)
- Cymal 3 (Cyfyngiadau eraill o ran dehongli'r gyfraith)
- Cymal 4 (Symud nwyddau (gan gynnwys tollau): darpariaethau eithriedig yn y Protocol)
- Cymal 13 (Gweithredu, cymhwyso, goruchwyllo a gorfodi'r Protocol)
- Cymal 14 (Darpariaeth yn y Protocol etc. sy'n berthnasol i eithriadau eraill)
- Cymal 15 (Newidiadau i ddarpariaeth eithriedig, ac eithriadau rhagddi)

Cymalau sy'n weddill sy'n rhoi sylw i'r maes nas cedwir yn ôl o ran gweithredu cytundebau rhyngwladol a/neu ddatblygu economaidd sy'n ystyried adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar y cyd â RhS 29.1(i):

- Cymal 6 (Materion tollau: cyfraith newydd)
- Cymal 7 (Rheoleiddio nwyddau: opsiwn i ddewis rhwng llwybrau deuol)
- Cymal 8 (Rheoleiddio nwyddau: darpariaeth eithriedig yn y Protocol)
- Cymal 11 (Rheoleiddio nwyddau: darpariaeth atodol)
- Cymal 12 (Rheoli cymorthdaliadau)
- Cymal 18 (Pwerau Gweinidogol eraill)
- Cymal 20 (Rôl Llys Ewrop mewn achosion llys a thriwlynys)
- Cymal 24 (Rheoliadau sy'n ymwneud â threthi neu faterion tollau)

19. Mae disgrifiad llawn o bob cymal, a'r gofyniad cysylltiedig ar gyfer Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ar gael yn **Atodiad 1**.
20. Mae'r Nodiadau Esboniadol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bil yn cynnwys tabl sy'n dangos y darpariaethau y mae Llywodraeth y DU yn ystyried eu bod yn sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Mae'r cymalau hyn wedi eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn am fod Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod yn ddarpariaethau perthnasol o dan RhS 29.2.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd

21. Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad ar y sail bod y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â materion datganoledig. Mae'r cymalau hynny y mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad ar eu cyfer wedi eu cynnwys yn Atodiad A i'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil, fel y'u cyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 2022.
22. Mae Llywodraeth Cymru wedi casglu na all argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Rydym yn argymhell peidio â chydsynio i'r Bil am y rhesymau a ganlyn:
- a. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Bil hwn ac nid yw'n cytuno â'r rhesymeg dros wneud y darpariaethau hyn. Rydym wedi gofyn yn gyson i Lywodraeth y DU ddychwelyd at negodiadau â'r UE i geisio ateb y cytunir arno i'r materion sy'n deillio o'r Protocol.
 - b. Mae llawer o'r pwerau i wneud rheoliadau a ddrafftwyd yn y Bil mor eang nad yw eu diben yn glir mewn gwirionedd. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl canfod sut y byddai'r pwerau yn cael eu harfer na'r goblygiadau posibl na'r effaith y bydd y darpariaethau cysylltiedig yn ei chael i Gymru a'n setliad datganoli. At hynny, mae cymal 22(6) yn rhoi pŵer i Weinidog y Goron wneud rheoliadau sy'n rhoi i Lywodraethau Datganoledig unrhyw un neu rai o'r pwerau i wneud rheoliadau a roddir gan y Bil. Mae hyn yn golygu y caiff Gweinidogion y Goron benderfynu nid yn unig pa bwerau yn y Bil y caiff Gweinidogion Cymru (neu Lywodraeth Ddatganoledig arall) eu harfer, ond hefyd i ba raddau y caniateir arfer y pwerau hynny, p'un a fyddant yn cael eu rhannu â Llywodraeth y DU neu Lywodraethau Datganoledig eraill a sut, a beth fyddai'r broses graffu. Nid oes cyfyngiadau ar y pwerau y gellid eu rhoi i Weinidogion Cymru (er enghraifft er mwyn sicrhau cysondeb â meysydd datganoledig).
23. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cael cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil cyfan (ac eithrio cymal 1), ar y sail bod yr holl ddarpariaethau sy'n weddill yn y Bil yn rhoi sylw i'r maes nas cedwir yn ôl o ran gweithredu cytundebau rhyngwladol a/neu ddatblygu economaidd. Gan hynny, mae'r rhesymau uchod dros argymhell peidio â rhoi cydsyniad yn berthnasol i'r Bil yn ei gyfanrwydd, ac nid i'r darpariaethau hynny yn unig sydd o fewn cwmpas RhS 29.

Rhwymedigaethau Rhyngwladol

24. Mae gan Lywodraeth Cymru ragor o bryderon ynghylch y Bil o ran y posibilrwydd, pe bai'n cael ei ddeddfu a'i weithredu, y gallai arwain at dorri cyfraith ryngwladol.
25. Byddai rhai gweithrediadau a wneir gan wladwriaeth yn cael eu hystyried yn gamweithrediadau o dan gyfraith ryngwladol oni bai bod amgylchiadau sy'n gallu cyfiawnhau peidio â bodloni rhwymedigaeth ryngwladol. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio dibynnu ar yr athrawiaeth 'rheidrwydd' ('*necessity*') o dan gyfraith ryngwladol er mwyn cyfiawnhau peidio â bodloni ("*non-performance*") rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol a'r Cytundeb Ymadael, fel y'u rhagwelir gan y Bil.⁶ Fodd bynnag, mae rheidrwydd yn ffordd ddadleuol iawn o osgoi rhwymedigaethau rhyngwladol, ac felly caiff ei ddehongli gan y llysoedd mewn modd cyfyng tu hwnt.
26. Mae ysgolheigion cyfreithiol blaenllaw⁷ wedi nodi bod amddiffyniad rheidrwydd Llywodraeth y DU ar gyfer torri rhwymedigaethau rhyngwladol yn wan.
27. Oni bai bod Llywodraeth y DU yn gallu cyfiawnhau'n llwyddiannus beidio â bodloni rhai o'r rhwymedigaethau o dan y Protocol, sy'n edrych yn annhebygol o ddigwydd ar sail yr wybodaeth sydd ar gael inni, bydd y Bil yn golygu bod y DU yn torri ei rhwymedigaethau mewn cytuniadau rhyngwladol. Yn y pen draw, mater i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd fydd penderfynu a ellir cyfiawnhau'r gofynion ar gyfer yr amddiffyniad rheidrwydd os caiff achos torri'r rheolau ei gychwyn gan yr UE, ar sail y dystiolaeth a gyflwynir gan Lywodraeth y DU ar y pryd.
28. Nid mater i Weinidogion Cymru yw cytuno ar gamau i'w cymryd ynghylch materion o'r fath, y dylai'r Llysoedd benderfynu yn eu cylch ac sydd yn amlwg yn datblygu o hyd, nes i'r amddiffyniad rheidrwydd a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Bil hwn gael ei ystyried yn llawn a nes bydd dyfarniad yn ei gylch.
29. Gan hynny, mae Llywodraeth Cymru yn anfodlon argymell cydsynio i Fil sydd â'r potensial i dorri cyfraith ryngwladol ar sail na ellir ei chyfiawnhau. Mae Cod y Gweinidogion⁸ y mae Gweinidogion Cymru yn ei ddilyn yn berthnasol i'r casgliad hwn, ac mae'n nodi, "*Dylid darllen Cod y Gweinidogion yng ngoleuni'r ddyletswydd gyffredinol sydd ar y Gweinidogion i gydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys cyfraith ryngwladol a rhwymedigaethau mewn cytuniadau, ac i ddiogelu uniondeb bywyd cyhoeddus.*" Felly, gallai argymell cydsynio i'r Bil hwn godi cwestiynau ynghylch ymrwymiad Gweinidogion i'r Cod, yn benodol o

⁶ Bil Protocol Gogledd Iwerddon: Safbwynt cyfreithiol Llywodraeth y DU [Northern Ireland Protocol Bill: UK government legal position - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

⁷ Jonathan Jones CB – Cyn-bennaeth Adran Gyfreithiol Llywodraeth y DU – 13 Mehefin - "*It's a quite extraordinary Bill. Goes much further than 2020 Internal Market Bill. Turns off/neutralises great chunks of the Protocol - customs rules, state aids, role of ECJ, enforcement, implementation, dispute resolution provisions.*" <https://twitter.com/SirJQC/status/1536417826034130945>

Mark Elliott – Athro Cyfraith Gyhoeddus, Prifysgol Caergrawnt – 14 Mehefin – "*Since I am not an international lawyer, I will venture no firm opinion on whether the bar of necessity, as it is understood in this context, is cleared by the UK Government's arguments concerning Northern Ireland. It does, however, appear highly doubtful — and that is putting it mildly — whether the 'grave and imminent peril test' is satisfied.*" <https://constitutionalawmatters.org/2022/06/the-northern-ireland-protocol-bill/>

⁸ [Cod y Gweinidogion | LLYW.CYMRU](#)

ran y ffordd y gallai Gweinidogion Cymru arfer unrhyw bwerau i wneud rheoliadau (pe byddent yn cael eu rhoi iddynt) o dan y Bil a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol ar yr un pryd.

Goblygiadau ariannol

30. Bydd y goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â chanlyniadau gweithredu'r darpariaethau yn y Bil, ac maent yn ymwneud yn bennaf â gweithrediadau mewn porthladdoedd, a fydd yng Ngogledd Iwerddon gan amlaf. Fodd bynnag, bydd goblygiadau i borthladdoedd Cymru sy'n gweithredu yn uniongyrchol ar y cyd â phorthladdoedd Gogledd Iwerddon. Ni wyddys beth fydd y goblygiadau o ran costau.
31. Mae Cymal 21 hefyd yn darparu y caiff Gweinidog y Goron, adran o'r llywodraeth neu awdurdod datganoledig (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) fynd i wariant at ddiben, neu mewn cysylltiad â, paratoi ar gyfer unrhyw fater y caiff rheoliadau o dan y Bil wneud darpariaeth yn ei gylch cyn i unrhyw ddarpariaeth o'r fath gael ei gwneud.
32. Bydd goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ran darparu adnoddau ac ymateb i'r trefniadau newydd ar gyfer gwirio nwyddau. Ni wyddys beth fydd y goblygiadau hyn chwaith, a dim ond wrth i swyddogaethau'r Bil ddechrau dod yn weithredol y byddant yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, ni wyddys sut y caiff y gwariant posibl hwn ei gyllido, ac mae hyn yn destun pryder i Lywodraeth Cymru os bydd goblygiad ariannol y bydd angen darparu adnoddau ar ei gyfer drwy gyllid arferol Llywodraeth Cymru.

Casgliad

33. Am y rhesymau uchod, mae Gweinidogion Cymru yn argymhell peidio â chydysynio i Fil Protocol Gogledd Iwerddon.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
29 Medi 2022

Atodiad 1

Darpariaethau yn y Bil Protocol Gogledd Iwerddon y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

O dan RhS 29.1(i) ar gyfer cymalau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- Cymal 5 (Symud nwyddau: cyfraith newydd ynghylch materion ac eithrio tollau)
 - Cymal 9 (Rheoleiddio nwyddau: cyfraith newydd)
 - Cymal 10 (Ystyr “rheoleiddio nwyddau”)
 - Cymal 16 (Darpariaeth eithriedig ychwanegol: cyfraith newydd)
 - Cymal 17 (Treth ar werth, tollau cartref a threthi eraill: cyfraith newydd)
 - Cymal 19 (Cytundebau newydd sy’n diwygio neu’n disodli Protocol Gogledd Iwerddon)
 - Cymal 21 (Gwariant paratoadol)
 - Cymal 22 (Rheoliadau)
 - Cymal 23 (Gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon: darpariaethau cyffredinol)
 - Cymal 25 (Dehongli)
 - Cymal 26 (Rhychwant, cychwyn ac enw byr)
1. Mae **cymal 5** yn rhoi pŵer i ganiatáu i Weinidog y Goron wneud ‘cyfraith newydd’ mewn perthynas â symud nwyddau, mewn cysylltiad â’r darpariaethau hynny yn y Protocol sydd wedi’u heithrio o dan gymal 4. Mae’r cymal hwn yn galluogi Gweinidog y Goron i wneud darpariaeth i nwyddau a fwriedir ar gyfer y DU a’r UE gael eu gwahaniaethu, er enghraifft drwy ddarparu ar gyfer gofynion gwahanol o ran y gwiriadau a’r rheolaethau a fydd yn gymwys yn y naill achos a’r llall.
 2. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff Gweinidog y Goron, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth y mae’r Gweinidog yn ystyried ei bod yn briodol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Protocol y mae cymal 4 yn ymwneud â hi.
 3. Mae is-adran (2) yn egluro na ellir defnyddio is-adran (1) i wneud darpariaeth ynghylch materion tollau, sydd yn hytrach wedi’u cynnwys yng nghymal 6.
 4. Mae is-adran (3) yn nodi rhestr nad yw’n gynhwysfawr o’r hyn y caniateir i reoliadau a wneir o dan is-adran (1) ei gynnwys.
 5. Mae’r pŵer a roddir o dan y cymal hwn yn eang iawn ei gwmpas a gall yn hawdd gynnwys meysydd datganoledig. Er enghraifft, er bod y rheoleiddio ar fewnforion ac allforion yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 71 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ceir eithriadau i’r mater hwn a gedwir yn ôl. Mae’r eithriadau hyn yn sicrhau bod y Senedd yn gallu rheoleiddio’r symud i mewn i Gymru ac allan ohoni ar y pethau hynny sydd wedi’u rhestru am

resymau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, megis diogelu'r amgylchedd.

6. Ar ôl i gymal 4 ddatgymhwyso'r elfennau hynny o'r Protocol sy'n ymwneud â symud nwyddau o adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (ar y cyd â chymal 2), byddai gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu o fewn meysydd datganoledig sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y pŵer hwn.
7. Felly, mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i), gan fod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'n gymwys i feysydd datganoledig.
8. Mae **cymal 9**(1) yn rhoi pŵer i ganiatáu i Weinidog y Goron wneud unrhyw ddarpariaeth ynghylch rheoleiddio nwyddau y mae'r Gweinidog yn ystyried ei bod yn briodol mewn cysylltiad â'r Protocol, gan gynnwys addasu llwybr rheoleiddio ar gyfer y DU neu'r UE sydd ar gael o dan gymal 7.
9. Mae is-adran (2) yn egluro y gellir defnyddio'r rheoliadau hyn mewn cysylltiad â gweithredu llwybrau rheoleiddio ar gyfer y DU neu'r UE ac y gellir eu defnyddio hefyd i ddiwygio cymalau 7 ac 8.
10. Unwaith eto, mae'r pŵer a roddir o dan y cymal hwn yn eang iawn ei gwmpas a gall yn hawdd gynnwys meysydd datganoledig. Er bod paragraff 72(a) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cadw'r rheoleiddio ar werthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr yn ôl, a bod amryw o faterion a gedwir yn ôl sy'n ymwneud â safonau cynhyrchion, diogelwch cynhyrchion ac atebolrwydd am gynhyrchion hefyd wedi'u cynnwys o fewn paragraffau 77-80 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ceir eithriad. Mae'r eithriad hwn yn sicrhau bod y Senedd yn parhau i gael cymhwysedd mewn perthynas â diogelwch bwyd (gan gynnwys deunydd pacio a deunyddiau eraill sy'n dod i gysylltiad â bwyd) a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, cynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, hadau, bwydydd anifeiliaid, gwrteithiau a phlaleiddiaid. O ganlyniad, byddai gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.
11. Ar ôl i gymal 4 ddatgymhwyso'r elfennau hynny o'r Protocol sy'n ymwneud â symud nwyddau o adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (ar y cyd â chymal 2), byddai gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu o fewn meysydd datganoledig sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y pŵer hwn.
12. Felly, mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i), gan fod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'n gymwys i feysydd datganoledig.
13. Mae **cymal 10** yn darparu diffiniadau mewn perthynas â "rheoleiddio nwyddau", at ddiben y Bil, sy'n cynnwys cymal 9. I'r graddau y mae cymal 9 o fewn cymhwysedd fel yr amlinellir uchod, mae'r cymal hwn hefyd o fewn cymhwysedd, ac mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i).

14. Mae **cymal 16** yn rhoi pŵer i Weinidog y Goron wneud unrhyw ddarpariaeth y mae'r Gweinidog yn ystyried ei bod yn briodol mewn cysylltiad â darpariaeth eithriedig ychwanegol, sef darpariaethau yn y Protocol neu'r Cytundeb Ymadael, sy'n dod yn 'ddarpariaeth eithriedig' yn rhinwedd y pwerau yng nghymal 15.
15. Mae'r pŵer yng nghymal 16 yn eang iawn, yn y bôn i wneud 'cyfraith newydd' (*'new law'*) mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth ychwanegol yn y Protocol a wnaethpwyd yn "ddarpariaeth eithriedig" yn unol â chymal 15 o'r Bil. Gallai'r pŵer hwn gael ei arfer mewn maes cymhwysedd datganoledig pan fyddai gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu, er enghraifft, iechyd ac amaethyddiaeth. Felly, mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i), gan fod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'n gymwys i feysydd datganoledig.
16. Mae **cymal 17(1)** yn darparu y caiff y Trysorlys wneud unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â TAW a thollau cartref, ac unrhyw drethi eraill, y mae'n ystyried eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r Protocol.
17. Mae is-adran (2) yn egluro y caiff y Trysorlys ddefnyddio'r pŵer hwn yn benodol pan fo gwneud hynny'n angenrheidiol i leihau, dileu, neu osgoi gwahaniaethau o ran TAW, tollau cartref neu drethi eraill rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.
18. Er bod paragraff 15 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cadw polisïau cyllidol, economaidd ac ariannol yn ôl, gan gynnwys trethi a thollau cartref, mae eithriad ar gyfer trethi datganoledig a threthi lleol. Er ei bod yn ymddangos bod ffocws ar fesurau ledled y DU a amlinellir yn y nodiadau esboniadol, mae'r pŵer a ddarperir i'r Trysorlys mor eang yn ei gwmpas, er enghraifft mae 17(1)(c) yn ymestyn i "unrhyw dreth arall", a allai, wrth ei ddarllen ochr yn ochr â chymal 17(2)(c) fod â'r potensial i ymestyn i drethi lleol a/neu ddatganoledig, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
19. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i), gan fod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'n gymwys i drethi lleol a/neu ddatganoledig.
20. Mae **cymal 19** yn darparu y caiff Gweinidog y Goron, drwy reoliadau, wneud darpariaeth briodol i weithredu cytundeb newydd gyda'r UE sy'n diwygio neu'n disodli'r Protocol.
21. Er bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 10(1) o Ran 1 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw ufuddhau i rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu yn fater a gedwir yn ôl, yn unol â pharagraff 10(3)(a) o Ran 1 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
22. O ganlyniad, mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i), gan fod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae'n gymwys i weithredu cytundeb rhyngwladol.

23. Mae **cymal 21** yn darparu y caiff Gweinidog y Goron, adran o'r Llywodraeth, neu awdurdod datganoledig (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru) fynd i wariant at ddiben paratoi ar gyfer unrhyw beth y caiff rheoliadau o dan y Bil wneud darpariaeth yn ei gylch, neu mewn cysylltiad â hynny, cyn gwneud unrhyw ddarpariaeth o'r fath. Mae'r cymal hwn wedi'i ddrafftio mor eang fel nad yw'n ymddangos ei bod yn bwysig a oes gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau o dan y Bil mewn gwirionedd; efallai y bydd yn dal i allu dod o fewn y cymal hwn er mwyn cyfiawnhau mynd i wariant. Mae'r nodiadau esboniadol yn adlewyrchu hynny: '*Clause 21 provides that Ministers of the Crown, government departments, or devolved authorities may properly incur expenditure in preparation for action undertaken under this Bill, for the making of statutory instruments under this Bill, or under other Acts or statutory instruments as modified by or under this Bill*' (emphasis added).
24. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i), gan fod y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y mae pwerau i wneud rheoliadau o fewn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
25. Mae **cymal 22** yn nodi natur a chwmpas cyffredinol y pwerau i wneud rheoliadau a roddir gan y Bil.
26. Mae is-adran (1) yn cadarnhau y gall rheoliadau o dan y Bil hwn wneud unrhyw ddarpariaeth y gellir ei gwneud gan Ddeddf Seneddol; mae hyn yn cynnwys diwygio'r Bil hwn neu wneud darpariaeth ôl-weithredol.
27. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff Gweinidog y Goron, drwy reoliadau, wneud y pwerau eraill o dan y Bil hwn yn arferadwy yn unig, yn gydeddol neu ar y cyd ag Awdurdodau Datganoledig (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru), ac y caiff ddarparu ar gyfer craffu ar y rheoliadau hynny. Fel y nodwyd uchod, mae llawer o'r pwerau i wneud rheoliadau a ddarperir i Weinidogion y Goron o fewn y Bil yn eang eu cwmpas fel y gallent ddod o fewn meysydd datganoledig. Nid yw'n glir ychwaith pa bwerau i wneud rheoliadau y gellid eu 'his-ddirprwyo' i Weinidogion Cymru o dan gymal 22(6), neu a fyddai hyn yn cynnwys materion yr ystyrir eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yn unig neu y gellid eu defnyddio i roi swyddogaethau gweithredol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau cymhwysedd deddfwriaethol.
28. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i); i'r graddau y mae unrhyw bwerau i wneud rheoliadau o fewn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, byddai o fewn cymhwysedd i nodi natur a chwmpas pwerau o'r fath yn yr un modd.
29. Mae **cymal 23** yn nodi'r broses a'r weithdrefn seneddol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan y Bil. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i); i'r graddau y mae unrhyw bwerau i wneud rheoliadau o fewn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, byddai o fewn cymhwysedd i nodi'r weithdrefn graffu ar gyfer rheoliadau o'r fath yn yr un modd.
30. Mae **cymal 25** yn nodi'r termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Bil. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i); i'r graddau y mae'r diffiniadau hyn yn gymwys i

gymalau o fewn y Bil o fewn cwmpas RhS 29, byddai angen cydsyniad ar y cymal hwn hefyd.

31. Mae **cymal 26** yn gwneud nifer o ddarpariaethau terfynol yn y Bil sy'n ymwneud â rhychwant, cychwyn ac enw byr.

32. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(i); i'r graddau y mae'r cymal hwn yn darparu ar gyfer cychwyn cymalau eraill yn y Bil y mae angen cydsyniad arnynt, byddai angen cydsyniad ar y cymal hwn hefyd.

O dan RhS 29.1(ii) ar gyfer cymalau sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- Cymal 2 (Cyfyngu ar weithredu Protocol Gogledd Iwerddon yn gyffredinol)
- Cymal 3 (Cyfyngiadau eraill o ran dehongli'r gyfraith)
- Cymal 4 (Symud nwyddau (gan gynnwys tollau): darpariaethau eithriedig yn y Protocol)
- Cymal 13 (Gweithredu, cymhwyso, goruchwyllo a gorfodi'r Protocol)
- Cymal 14 (Darpariaeth yn y Protocol etc sy'n berthnasol i eithriadau eraill)
- Cymal 15 (Newidiadau i ddarpariaeth eithriedig, ac eithriadau rhagddi)

33. Mae **cymalau 2 a 3** yn caniatáu i weddill y Bil ddod i rym.

34. Mae cymal 2 yn dileu effaith (mewn cyfraith ddomestig) 'darpariaethau eithriedig' yn y Protocol a'r Cytundeb Ymadael, sy'n cael effaith ar hyn o bryd gan adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

35. Mae is-adrannau (1) yn nodi nad yw adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn gymwys i hawliau, pwerau, atebolrwyddau, rhwymedigaethau a chyfyngiadau, neu rwymedïau neu weithdrefnau a grëir neu sy'n codi o dan unrhyw 'ddarpariaeth eithriedig' yn y Protocol neu'r Cytundeb Ymadael. Mae is-adran (2) yn nodi na fydd hawliau o'r fath etc yn cael eu cydnabod na'u gorfodi mewn cyfraith ddomestig. Yn y bôn, mae'r cymalau hyn gyda'i gilydd yn golygu na fydd darpariaethau eithriedig yn y Protocol bellach yn cael effaith uniongyrchol na goruchafiaeth. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2008 i adlewyrchu hyn.

36. Mae gan gymal 3 swyddogaeth ategol i gymal 2, gan gyfyngu ar adran 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a fyddai fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i lysoedd domestig ddehongli cyfraith ddomestig yng ngoleuni cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu (fel y nodir uchod, y Cytundeb Ymadael, y Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir).

37. Mae adrannau 7A a 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn ddeddfiadau sydd wedi'u diogelu o dan baragraff 5 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, nid oes gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn y maes hwn. Fodd bynnag, i'r graddau y mae'r cymalau hyn yn newid yr effaith y mae adrannau 7A a 7C yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y

Senedd ar hyn o bryd, gellir dweud bod y Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Er enghraifft, gan na fydd yn rhaid darllen deddfwriaeth Cymru mwyach er mwyn rhoi effaith uniongyrchol a goruchafiaeth i ddarpariaeth eithriedig yn y Protocol o fewn meysydd datganoledig, addesir y cymhwysedd deddfwriaethol.

38. Mae gan Weinidogion Cymru nifer o swyddogaethau o ran gweithredu'r Protocol mewn meysydd datganoledig. Er mwyn ceisio addasu'r ffordd yr arferir swyddogaethau o'r fath, mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, drwy eithrio darpariaeth benodol yn y Protocol rhag adran 7A a 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, addesir cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru hefyd.
39. Felly, mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(ii) ar gyfer cymalau 2 a 3, gan fod y ddarpariaeth hon yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.
40. Mae **cymal 4(1)** yn darparu bod rhannau o Erthygl 5.1 ac Erthygl 5.2 o'r Protocol (a oedd yn nodi mai ar nwyddau a oedd yn mynd i mewn i Ogledd Iwerddon a oedd "mewn perygl" ("*at risk*") o fynd i mewn i'r UE yn unig y byddai tollau tramor yn cael eu codi) yn ddarpariaeth eithriedig, ac felly'n datgymhwyso eu heffaith mewn cyfraith ddomestig.
41. Mae is-adran (2) yn nodi bod erthyglau 5.3 a 5.4 o'r Protocol (deddfwriaeth tollau sy'n gymwys i'r Deyrnas Unedig, ac ynddi, mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, a darpariaethau o gyfraith yr UE sy'n gymwys i'r Deyrnas Unedig, ac ynddi, mewn perthynas â Gogledd Iwerddon) yn ddarpariaeth eithriedig i'r graddau y maent yn ymwneud â "symudiadau cymwys" ("*qualifying movements*") o nwyddau a fwriedir ar gyfer y DU neu'r tu allan i'r UE (a ddiffinnir yng nghymal 4(4)). Mae is-adran (2) yn ei chyfanrwydd, felly, yn cael gwared â gofynion tollau, tariffau a rhai gofynion rheoliadol er enghraifft mesurau iechydol a ffytoiachydol ar "symudiadau cymwys" gan gynnwys y rheini o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.
42. Nid oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i eithrio darpariaethau'r Protocol (gan y byddai'n angenrheidiol, yn y lle cyntaf, diystyru adran 7A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ac ni ellir gwneud hynny mewn Deddf gan Senedd Cymru fel yr amlinellir yng nghymalau 2 a 3 uchod gan fod Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn ddeddfiad gwarchoddedig), a hefyd wrth ystyried bod rheoleiddio masnach ryngwladol a chysylltiadau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl o dan baragraff 10(1) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.
43. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hyn yn darparu ar gyfer symud nwyddau rhwng y Deyrnas Unedig a Gogledd Iwerddon, ac yn ymdrin â materion o fewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Er enghraifft, er bod rheoleiddio mewnforion ac allforion yn fater a gedwir yn ôl o dan baragraff 71 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, ceir eithriadau i'r mater hwn a gedwir yn ôl. Mae hyn yn sicrhau bod y Senedd yn gallu rheoleiddio symud y pethau a restrir i mewn ac allan o Gymru am resymau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli,

megis diogelu iechyd anifeiliaid neu blanhigion neu ddiogelu yr amgylchedd. Yn sgil hynny, i'r graddau y bydd yr effaith sydd gan adrannau 7A a 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ar hyn o bryd ar gymhwysedd datganoledig yn cael ei dileu ar gyfer "darpariaeth eithriedig", gellir dweud bod y cymal hwn (o'i ddarllen gyda chymalau 2 a 3) yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol a chymhwysedd gweithredol o fewn meysydd datganoledig.

44. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(ii), gan fod y ddarpariaeth hon yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.
45. Mae **cymal 13** yn cael gwared ag awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn y DU mewn perthynas â'r Protocol a darpariaethau cysylltiedig yn y Cytundeb Ymadael. Nodir bod erthyglau 12.2 a 12.3 o Brotocol Gogledd Iwerddon yn "ddarpariaeth eithriedig". Er nad oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i eithrio darpariaethau'r Protocol (fel yr esbonnir ymhellach yng nghymalau 2, 3 ac uchod), i'r graddau y bydd yr effaith sydd gan adrannau 7A a 7C ar hyn o bryd ar gymhwysedd datganoledig yn cael ei dileu mewn perthynas â "darpariaeth eithriedig", gellir dweud bod y cymal hwn (o'i ddarllen gyda chymalau 2 a 3) yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol o fewn meysydd datganoledig.
46. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(ii), gan fod y ddarpariaeth hon yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
47. Mae **cymal 14** yn datgymhwyso rhannau o'r Protocol a'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â "darpariaethau eithriedig" eraill. Mae hefyd yn darparu pŵer i Weinidog y Goron wneud unrhyw ddarpariaeth a ystyrir yn briodol mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth yn y Protocol ac mewn rhannau eraill o'r Cytundeb Ymadael y mae'r adran hon yn ymwneud â hi. Yn sgil hynny, i'r graddau y bydd yr effaith sydd gan adrannau 7A a 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ar hyn o bryd ar gymhwysedd datganoledig yn cael ei dileu ar gyfer "darpariaeth eithriedig", gellir dweud bod y cymal hwn (o'i ddarllen gyda chymalau 2 a 3) yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol a chymhwysedd gweithredol o fewn meysydd datganoledig.
48. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(ii), gan fod y ddarpariaeth hon yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.
49. Mae **cymal 15** yn rhoi pŵer eang i Weinidog y Goron wneud rheoliadau sy'n gwneud rhannau eraill o'r Protocol neu'r Cytundeb Ymadael yn ddarpariaeth eithriedig (ar wahân i erthyglau'r Protocol ar hawliau unigol, yr ardal deithio gyffredin a chydweithrediad rhwng y Gogledd a'r De), os ystyrir bod hynny yn angenrheidiol, ar gyfer ystod o "ddibenion a ganiateir" ("*permitted purposes*"). Mae'r dibenion hyn a ganiateir yn cynnwys materion datganoledig, er enghraifft diogelu llesiant neu iechyd anifeiliaid, planhigion neu bobl a diogelu'r amgylchedd. Yn sgil hynny, i'r graddau y bydd yr effaith sydd gan adrannau 7A a 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ar hyn o bryd ar gymhwysedd datganoledig yn cael ei dileu ar gyfer "darpariaeth eithriedig", gellir dweud bod y cymal hwn (o'i ddarllen gyda chymalau 2 a 3) yn addasu

cymhwysedd deddfwriaethol a chymhwysedd gweithredol o fewn meysydd datganoledig.

50. Mae angen cydsyniad o dan RhS 29.1(ii), gan fod y ddarpariaeth hon yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig gan ystyried yr effaith ar ddatblygu economaidd a/neu weithredu cytundebau rhyngwladol y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn rhinwedd adran 107(6) o Ddeddf 2006:

- Cymal 6 (Materion tollau: cyfraith newydd)
- Cymal 7 (Rheoleiddio nwyddau: opsiwn i ddewis rhwng ffyrdd deuol)
- Cymal 8 (Rheoleiddio nwyddau: darpariaeth eithriedig yn y Protocol)
- Cymal 11 (Rheoleiddio nwyddau: darpariaeth atodol)
- Cymal 12 (Rheoli cymorthdaliadau)
- Cymal 18 (Pwerau Gweinidogol eraill)
- Cymal 20 (Rôl Llys Ewrop mewn achosion llys a thriwlynys)
- Cymal 24 (Rheoliadau sy'n ymwneud â threthi neu faterion tollau)

51. Mae **cymal 6** yn darparu y caiff y Trysorlys neu CThEM, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth ynghylch materion tollau, gan gynnwys dyletswyddau a gweinyddu a gorfodi tollau, y maent yn ystyried eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r Protocol.

52. Nid ystyrir y byddai'r ddarpariaeth hon yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan nodi yn benodol bod paragraff 15 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cadw polisi cyllidol, economaidd ac ariannol, gan gynnwys trethi a thollau cartref (ac eithrio trethi datganoledig a threthi lleol) yn ôl.

53. Fodd bynnag, gan ystyried adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi sylw i faterion datganoledig, gan ystyried yr effaith ar y maes nas cedwir yn ôl o ran datblygu economaidd a/neu weithredu cytundebau rhyngwladol. O ganlyniad felly, mae angen cydsyniad y Senedd Cymru.

54. Mae **cymal 7** yn cyflwyno trefn reoleiddiol ddeuol yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer dosbarthiadau o nwyddau a reoleiddir y mae unrhyw ddarpariaeth yn Atodiad 2 o Brotocol Gogledd Iwerddon yn berthnasol iddo. Mae **cymal 8** yn darparu y datgymhwysir darpariaethau perthnasol yn erthygl 5.4 o Brotocol Gogledd Iwerddon, ac Atodiad 2 iddo, i'r graddau y byddent yn atal y dewis o lwybrau rheoleiddio a nodir yng nghymal 7 rhag cael effaith. Mae **cymal 11** yn atodol i gymal 7 ac yn rhoi pŵer i Weinidogion y DU wneud rheoliadau ynghylch cymhwyso cymal 7.

55. Nid ystyrir y byddai'r darpariaethau hyn yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i eithrio darpariaethau'r Protocol (fel yr amlinellir yng nghymal 4 uchod). Yn

ychwanegol, diben trosfwaol y darpariaethau hyn yw rheoleiddio nwyddau yng Ngogledd Iwerddon. Mae rheoleiddio masnach ryngwladol a chysylltiadau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl o dan baragraff 10(1) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

56. Fodd bynnag, gan ystyried adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi sylw i faterion datganoledig, gan ystyried yr effaith ar y maes nas cedwir yn ôl o ran datblygu economaidd a/neu weithredu cytundebau rhyngwladol. Yn ychwanegol, gall nifer y nwyddau a reoleiddir yr effeithir arnynt gan y darpariaethau hyn fod o berthnasedd uniongyrchol i feysydd datganoledig (er enghraifft, iechyd ac amaethyddiaeth).
57. Mae **cymal 12** yn rhoi Gogledd Iwerddon o dan drefn newydd y DU o ran rheoli cymorthdaliadau, yn hytrach na threfn cymorth gwladwriaethol yr UE mewn perthynas â masnach nwyddau.
58. Nid ystyrir y byddai'r ddarpariaeth hon yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae rheoli cymorthdaliadau yn fater a gedwir yn ôl o dan adran C18 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006 (cymorthdaliadau sy'n gwyrddio neu'n niweidio).
59. Fodd bynnag, gan ystyried adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi sylw i faterion datganoledig, gan ystyried yr effaith ar y maes nas cedwir yn ôl o ran datblygu economaidd. O ganlyniad felly, mae angen cydsyniad y Senedd.
60. Mae **cymal 18** yn caniatáu i Weinidog y Goron "ymgyrdd ag ymddygiad" ("engage in conduct") mewn perthynas â materion a ymdrinnir â hwy yn y Protocol yr ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny mewn cysylltiad ag un neu ragor o ddibenion y Bil. Nid ystyrir y byddai'r ddarpariaeth hon yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Prif ddiben y ddarpariaeth yw ymddygiad mewn perthynas ag unrhyw fater yr ymdrinnir ag ef yn y Protocol, ac felly "yn ymwneud" â'r mater a gedwir yn ôl o ran masnach ryngwladol a/neu gysylltiadau rhyngwladol (adran 108A(2)(c)). Fodd bynnag, mae'r diffyg eglurder ynghylch yr hyn yw "ymddygiad" o'r fath yn ei gwneud yn anodd darogan y goblygiadau posibl ar gyfer meysydd datganoledig.
61. Gan ystyried adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi sylw i faterion datganoledig, gan ystyried yr effaith ar y maes nas cedwir yn ôl o ran datblygu economaidd a/neu weithredu cytundebau rhyngwladol, ac o bosibl meysydd datganoledig eraill yn sgil cwmpas y ddarpariaeth. O ganlyniad felly, mae angen cydsyniad y Senedd.
62. Mae **cymal 20** yn gwneud darpariaeth yn ymwneud ag effaith, mewn cyfraith ddomestig, dyfarniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, gan ddarparu, mewn achosion mewn perthynas â (i) y Protocol; (ii) darpariaethau cysylltiedig y Cytundeb Ymadael; neu (iii) cyfraith ddomestig sy'n ymwneud â'r Protocol neu ddarpariaethau cysylltiedig y Cytundeb Ymadael, nad yw llysoedd y DU wedi'u rhwymo gan benderfyniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ac nad ydynt yn gallu atgyfeirio materion i'r llys hwnnw.

63. Nid ystyrir y byddai'r ddarpariaeth hon yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Prif ddiben y ddarpariaeth yw masnach ryngwladol a/neu gysylltiadau rhyngwladol; a'r awdurdodaeth gyfreithiol unigol o ran Cymru a Lloegr, sy'n faterion a gedwir yn ôl o dan baragraffau 10(1) ac 8(1) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn y drefn honno.
64. Fodd bynnag, gan ystyried adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi sylw i faterion datganoledig, gan ystyried yr effaith ar y maes nas cedwir yn ôl o ran datblygu economaidd a/neu weithredu cytundebau rhyngwladol, ac o bosibl meysydd datganoledig eraill yn sgil cwmpas y ddarpariaeth. O ganlyniad felly, mae angen cydsyniad y Senedd.
65. Mae **cymal 24** yn ymwneud â rheoliadau trethi neu dollau o dan y Bil.
66. Nid ystyrir y byddai'r ddarpariaeth hon yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, am yr un rhesymau a amlinellir yng nghymal 6 uchod.
67. Fodd bynnag, gan ystyried adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi sylw i faterion datganoledig, gan ystyried effaith ar y maes nas cedwir yn ôl o ran datblygu economaidd a/neu weithredu cytundebau rhyngwladol. O ganlyniad felly, mae angen cydsyniad y Senedd.